HELP MAKE WALES A FAIR TRADE COUNTRY

HELPWCH I WNEUD CYMRU'N WLAD MASNACH DEG

Ideas for Fair Trade Activities in Schools

There are more details of the suggested activities on the following pages. Just don't forget to invite the local papers along!

- Fashion show modelling Fair Trade clothes
- Fairtrade football / rugby / basketball match using Fairtrade balls
- Quiz evening with Fair Trade refreshments
- Set up a Fair Trade café
- Fair Trade cookery club
- Produce a Fair Trade recipe book
- Fair Trade baking competition
- Fair Trade cake sale
- Running a Fair Trade stall
- Do drama about Fair Trade during Assembly
- Organise a Fair Trade debate
- Fair Trade Easter egg hunt
- Fair Trade treasure hunt
- Make a Fairtrade banner
- Fair Trade wine tasting evening
- Fair Trade chocolate tasting
- Fair Trade sock hurling contest
- Get your school uniform available in Fairtrade cotton
- Fair Trade tea bath
- The school's name in Fair Trade toffee

It would be great to add to this list of suggestions.
Please send any ideas of your own (however crazy!) to:
Mark Richardson
154, High Street, Bangor, LL57 1NU
walesfairtrade@btconnect.com

Fashion show modelling Fair Trade clothes
There are normally plenty of budding models in a school. And those who don't want to strut their funky stuff on the catwalk can help out with the hair and make-up, lighting, music, announcing… in fact there's enough for the whole school to be involved. Just don't let the teachers get away without a turn on the catwalk!
There are various Fair Trade shops and manufacturers who are usually very happy to lend clothes to groups running a Fair Trade fashion show.
A toolkit with everything you need to know to run a successful fashion show is available from the Wales Fair Trade Forum

Fairtrade football / rugby / basketball match using Fairtrade balls
Fair Trade sports balls are now available from Traidcraft, among others. You could organise a competition using Fair Trade balls between different school teams, or different schools. Boys vs. girls, mixed years, staff vs. pupils. Just use your imagination! Ultimately try to make sure that all the sports balls in the schools are Fair Trade.

Quiz evening with Fair Trade refreshments
A quiz evening is always good fun, whether it is for pupils and staff, or families and friends as well. You could serve Fair Trade refreshments and include a round on Fair Trade to see how much everyone really knows! See www.fairtradewales.com for ideas for questions.

Set up a Fair Trade café
Some schools have turned one of the classrooms into a stylish Fair Trade café for a week. Pupils can chill out with a Fair Trade coffee or hot chocolate and munch on delicious Fair Trade cakes and biscuits. You can put up displays in the café about Fair Trade too. It's a brilliant project to introduce business skills, and there is huge amounts of fun to be had sorting out the decor, music, marketing…
A 'how-to' guide is available from the Wales Fair Trade Forum.

Fair Trade cookery club
Great fun whether it's a once off event or a regular meeting, during lessons, lunch time or after school. Get together to try recipes and invent new ones using Fair Trade ingredients!

Produce a Fair Trade recipe book
Well, it seems a shame to keep all those lovely new Fair Trade recipes to yourselves!

Fair Trade baking competition
A great way to get people baking using Fair Trade ingredients, even if you can't meet together regularly. And inviting people to come and judge the results is bound to be a popular occasion!

Fair Trade cake sale
If there's anything left after the judging (or if you're not feeling competitive) you could always sell the cakes and give the money to an overseas development charity such as Oxfam or Christian Aid. Fair Trade going even further.

Murder mystery party with Fair Trade meal
There are plenty of box sets for murder mystery evenings based around meals. Just substitute the original ingredients for Fair Trade equivalents.

Running a Fair Trade stall
Fairtrade snacks, goods, even clothes and jewellery. If your school doesn't have one yet then you could try setting one up. Either contact your local Fair Trade wholesaler (details available from the Wales Fair Trade Forum) or contact Traidcraft.

Do drama about Fair Trade during assembly
Drama can be a very effective way of getting across a message. You can get scripts from the Wales Fair Trade Forum, or download them fro the website.

Organise a Fair Trade debate
Not everyone thinks Fair Trade is a good thing. Find someone in the school who is prepared to argue against it and hold a public debate. Then let the audience decide whether or not it is a good thing? If you can't find genuine opponents you can probably find plenty of dodgy arguments against Fair Trade on the internet!

Fair Trade Easter egg hunt
Who says it has to be for primary school kids?!

Fair Trade treasure hunt
A year round alternative to the Easter egg hunt. You can set the clues to lead on a trail around the school and have Fair Trade treats hidden along the way, or given as prizes at the end. You can even include some Fair Trade facts in the clues.

Make a Fairtrade banner
The making is as important as having a banner to display at the end of it. A brilliant project for the art department, or a particular class. You could present it to your local Fair Trade group when it's finished.

Fair Trade wine tasting evening
Should encourage attendance at parent's evening…

Fair Trade chocolate tasting
Any excuse!

Fair Trade sock hurling contest
Marks & Spencer now sell Fair Trade cotton socks and T-shirts. But I bet no one has tested how far a pair of Fair Trade socks can be thrown when bunched into a ball! Everyone who enters must have their own pair of Fair Trade socks. Let's get a Wales-wide competition going!

Get your school uniform available in Fairtrade cotton
There's no reason why any school uniform shouldn't be made in Fairtrade cotton. You can find details on suppliers of Fairtrade cotton, and manufacturers of Fairtrade cotton clothes from the Fairtrade Foundation. www.fairtrade.org.uk

Sponsored Fair Trade tea bath
In the UK we drink 163 million cups of tea a day! So on average each person in the UK drinks 900 cups a year. That's around 225 litres. More than enough to fill a bath. And if you put your baths on wheels you could race them too…

The school's name in Fair Trade toffee
You can make toffee in any shape. Why not make it using Fair Trade sugar and make the school's name. Or make the town's name and present it to the Mayor. Then you could divide up the letters and work out how many the sugar producers would get as a proportion of the supermarket price of sugar.

HELP MAKE WALES A FAIR TRADE COUNTRY

HELPWCH I WNEUD CYMRU'N WLAD MASNACH DEG

Syniadau ar gyfer Gweithgareddau Masnach Deg mewn Ysgolion

Mae mwy o fanylion am y gweithgareddau a awgrymir ar y tudalennau canlynol. Cofiwch wahodd y papurau lleol i alw draw!

- Sioe ffasiynau yn modelu dillad Masnach Deg
- Gêm bêl-droed/rygbi/pêl-fasged Masnach Deg gan ddefnyddio peli Masnach Deg
- Cinio Cyfoethog a Thlawd
- Noson gwis gyda lluniaeth Masnach Deg
- Sefydlu caffi Masnach Deg
- Clwb coginio Masnach Deg
- Cynhyrchu llyfr ryseitiau Masnach Deg
- Cystadleuaeth goginio Masnach Deg
- Stondin deisennau Masnach Deg
- Rhoi stondin Masnach Deg ar waith
- Cynhyrchu drama am Fasnach Deg yn ystod y cyfarfod boreol
- Trefnu dadl Masnach Deg
- Helfa wyau'r Pasg Masnach Deg
- Helfa drysor Masnach Deg
- Llunio baner Masnach Deg
- Noson blasu gwin Masnach Deg
- Blasu siocled Masnach Deg
- Cystadleuaeth taflu hosanau Masnach Deg
- Sicrhau bod eich gwisg ysgol ar gael mewn cotwm Masnach Deg
- Baddon te Masnach Deg
- Enw'r ysgol mewn taffi Masnach Deg

Byddai'n wych ychwanegu at y rhestr hon o syniadau.
Anfonwch unrhyw syniadau sydd gennych (a'r rhai gwallgof hefyd!) at:
Mark Richardson, 154 Stryd Fawr, Bangor LL57 1NU
Walesfairtrade@btconnect.com

Sioe ffasiynau yn modelu dillad Masnach Deg
Fel arfer mae digon o ddarpar fodelau mewn ysgol, a gall y sawl sy'n rhy swil i gerdded y llwyfan helpu gyda gwneud gwalltiau a'r colur, goleuo, cerddoriaeth, cyflwyno … yn wir, mae digon i'r ysgol gyfan gymryd rhan. Cofiwch wneud yn siwr bod eich athrawon yn cael tro ar y llwyfan!
Fel arfer bydd amrywiol siopau a chynhyrchwyr Masnach Deg yn fodlon iawn benthyg dillad i grwpiau sy'n dymuno rhoi sioe ffasiynau Masnach Deg ar waith.
Mae pecyn yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol ynglyn â rhoi sioe ffasiynau llwyddiannus ar waith ar gael gan Fforwm Masnach Deg Cymru.

Gêm bêl-droed/rygbi/pêl-fasged Masnach Deg gan ddefnyddio peli Masnach Deg
Mae peli chwaraeon Masnach Deg ar gael erbyn hyn gan Traidcraft ac eraill. Gallwch drefnu cystadleuaeth gan ddefnyddio peli Masnach Deg rhwng timau ysgol gwahanol, neu wahanol ysgolion. Bechgyn v merched, blynyddoedd cymysg, staff v disgyblion – defnyddiwch eich dychymyg!

Cinio cyfoethog/tlawd Masnach Deg
Gallwch droi cantîn neu ystafell fwyta'r ysgol yn arddangosiad o ba mor anghyfartal yw'r byd. Mae pawb yn talu'r un swm am docyn (dyweder £2). Mae ychydig o westeion lwcus yn cael gwledd Masnach Deg 5 cwrs sydd werth llawer mwy na £2, mae rhai'n cael reis a chyri Masnach Deg, a rhai dim ond reis. Ffordd wych o ddangos sut mae ychydig ohonom yn mwynhau safon mor foethus o fyw, yn ogystal ag annog pobl i rannu eu cyfoeth!

Noson gwis gyda lluniaeth Masnach Deg
Mae noson gwis bob amser yn llawer o hwyl, boed hi ar gyfer disgyblion a staff, neu deuluoedd a chyfeillion hefyd. Gallwch gynnwys rownd ar Fasnach Deg i weld faint mae bawb yn ei wybod o ddifrif.

Sefydlu caffi Masnach Deg
Mae ambell i ysgol wedi troi un o'u dosbarthiadau yn gaffi Masnach Deg am wythnos. Gall disgyblion ddod yno i fwynhau coffi neu siocled poeth Masnach Deg ac i gnoi teisennau a bisgedi blasus Masnach Deg. Mae hwn yn broject gwych i gyflwyno sgiliau busnes, ac mae llawer o hwyl i'w gael yn trefnu'r addurniadau, cerddoriaeth, marchnata …
Mae arweiniad 'sut i …' ar gael gan Fforwm Masnach Deg Cymru.

Clwb coginio Masnach Deg
Llawer o hwyl un ai fel un digwyddiad neu fel cyfres o gyfarfodydd rheolaidd, yn ystod gwersi, amser cinio neu ar ôl yr ysgol. Dewch ynghyd i roi cynnig ar ryseitiau ac i greu rhai newydd gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg!

Cynhyrchu llyfr ryseitiau Masnach Deg
Wel, mae hi'n bechod cadw'r holl ryseitiau Masnach Deg blasus yna i chi'ch hunan!

Cystadleuaeth bobi Masnach Deg
Dull gwych o gael bobl i bobi gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg, hyd yn oed os na allwch gyfarfod yn rheolaidd. Ac mae gwahodd pobl i ddod i feirniadu'r canlyniadau yn sicr o fod yn achlysur poblogaidd!

Gwerthu teisennau Masnach Deg
Os oes unrhyw beth ar ôl wedi'r beirniadu (neu os nad ydych yn teimlo'n gystadleuol) gallwch werthu'r teisennau a rhoi'r arian i elusen sy'n datblygu dramor fel Oxfam neu Gymorth Cristnogol. Masnach Deg yn mynd ymhellach fyth felly.

Parti dirgelwch llofruddiaeth gyda phryd Masnach Deg
Mae digon o setiau mewn blwch ar gyfer nosweithiau dirgelwch llofruddiaeth yn seiliedig ar brydau. Yn lle'r cynhwysion gwreiddiol defnyddiwch rai Masnach Deg tebyg.

Rhoi stondin Masnach Deg ar waith
Byrbrydau, nwyddau, hyd yn oed dillad a gemwaith Masnach Deg. Os nad oes un yn eich ysgol eisoes yna gallwch roi cynnig ar ei sefydlu. Un ai cysylltwch â'ch cyfanwerthwr Masnach Deg (manylion ar gael gan Fforwm Masnach Deg Cymru) neu cysylltwch â Traidcraft.

Drama am Fasnach Deg yn ystod y cyfarfod boreol
Gall drama fod yn ffordd effeithiol iawn o drosglwyddo neges. Gallwch gysylltu â Fforwm Masnach Deg Cymru am sgript, neu eu llwytho i lawr o'r wefan.

Trefnu dadl Masnach Deg
Nid yw pawb yn credu bod Masnach Deg yn beth da. Chwiliwch am rywun yn yr ysgol sy'n fodlon dadlau yn ei herbyn a chynnal dadl gyhoeddus. Yna gadewch i'r gynulleidfa benderfynu a yw'n beth da a'i peidio. Os na allwch chi ddod o hyd i wrthwynebwyr go iawn mae'n debyg y gallwch ddod o hyd i ddadleuon amheus yn erbyn Masnach Deg ar y rhyngrwyd!

Helfa wyau Pasg Masnach Deg
Pwy sy'n dweud mai ar gyfer plant ysgol gynradd yn unig mae helfa?!

Helfa drysor Masnach Deg
Rhywbeth y gallwch ei chynnal unrhyw adeg o'r flwyddyn. Gallwch osod y cliwiau i arwain bobl ar lwybr o amgylch yr ysgol a chuddio melysion Masnach Deg ar hyd y ffordd, neu eu cyflwyno fel gwobrwyon ar y diwedd. Gallwch hyd yn oed gynnwys ambell i ffaith Masnach Deg yn y cliwiau.

Gwneud baner Masnach Deg
Mae'r gwneud cyn bwysiced â bod yn berchen ar faner i'w harddangos ar ddiwedd y gweithgaredd. Project gwych i'r adran gelf, neu ddosbarth arbennig. Gallwch ei chyflwyno i'ch grwp Masnach Deg lleol wedi ei chwblhau.

Noson flasu gwin Masnach Deg
Dylai hyn annog rhieni i ddod draw i unrhyw noson rieni …

Blasu siocled Masnach Deg
Unrhyw esgus!

Cystadleuaeth taflu hosanau Masnach Deg
Mae Marks & Spencer bellach yn gwerthu hosanau cotwm a chrysau-T o gotwm Masnach Deg. Ond rydw i'n sicr nad oes neb wedi profi pa mor bell y gellir taflu pâr o hosanau Masnach Deg ar ôl eu rowlio'n belen! Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael pâr o hosanau Masnach Deg eu hunain. Beth am gychwyn cystadleuaeth ledled Cymru?!

Sicrhewch fod eich gwisg ysgol ar gael mewn cotwm Masnach Deg
Nid oes rheswm o gwbl pam na ddylai unrhyw wisg gael ei chynhyrchu gyda chotwm Masnach Deg. Cewch fanylion cyflenwyr cotwm Masnach Deg, a chynhyrchwyr dillad cotwm Masnach Deg gan Sefydliad Masnach Deg. www.fairtrade.org.uk

Baddon te Masnach Deg noddedig
Yn y DU rydym yn yfed 163 miliwn cwpanaid o de y dydd! Felly, ar gyfartaledd, mae pob unigolyn yn y DU yn yfed 900 cwpanaid y flwyddyn. Mae hynny oddeutu 225 litr, mwy na digon i lenwi baddon. Ac os wnewch chi osod olwynion ar eich baddonau gallwch eu rasio hefyd …

Enw'r ysgol mewn taffi Masnach Deg
Gallwch lunio taffi yn unrhyw ffurf. Pam na wnewch chi ei wneud drwy ddefnyddio siwgr Masnach Deg a llunio enw'r ysgol? Neu lunio enw'r dref a'i gyflwyno i'r Maer? Yna byddech yn gallu rhannu'r llythrennau a dyfalu faint fyddai'r cynhyrchwyr siwgr yn ei gael fel canran o bris siwgr mewn archfarchnad.